

Ffotogallery – Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020/21

Dan delerau ei ymrwymiad i Gydraddoldeb, mae Ffotogallery yn ymroddedig i bolisi ac arferion cyfle cyfartal er mwyn sicrhau bod yr holl weithwyr cyflogedig a defnyddwyr gwasanaeth, yn rhai cyfredol a rhai posibl, yn cael eu trin yn gyfartal ac fel unigolion beth bynnag fo'u hoedran, anabledd, gwreiddiau ethnig neu genedlaethol, rhyw, statws priodasol neu statws rhiant, credoau gwleidyddol, hil, crefydd neu gyfeiriadedd rhywiol.

Mae ein polisi a'n cynlluniau gweithredu wedi eu diweddarau drwy hyn, gan adlewyrchu'r Ddeddf Cydraddoldeb a ddaeth i rym ar 1 Hydref 2010. Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn dod ag 116 o ddarnau gwahanol o ddeddfwriaeth at ei gilydd mewn un Ddeddf unigol. O'u cyfuno, maent yn creu Deddf newydd sy'n darparu fframwaith cyfreithiol i ddiogelu hawliau unigolion a datblygu cyfle cyfartal i bawb. Mae'r Ddeddf yn symleiddio, yn cryfhau ac yn cysoni'r ddeddfwriaeth gyfredol i ddarparu cyfraith gwahaniaethu newydd i Brydain sy'n diogelu unigolion rhag triniaeth annheg ac yn hybu cymdeithas deg a mwy cyfartal.

Dyma'r naw prif ddarn o ddeddfwriaeth sydd wedi cyfuno:

- Deddf Cyflog Cyfartal 1970
- Deddf Gwahaniaethu ar sail Rhyw 1975
- Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976
- Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995
- Rheoliadau Cydraddoldeb Cyflogaeth (Crefydd neu Gred) 2003
- Rheoliadau Cydraddoldeb Cyflogaeth (Cyfeiriadedd Rhywiol) 2003
- Rheoliadau Cydraddoldeb Cyflogaeth (Oed) 2006
- Deddf Cydraddoldeb 2006, Rhan 2
- Rheoliadau'r Ddeddf Cydraddoldeb (Cyfeiriadedd Rhywiol) 2007

Mae Ffotogallery yn mabwysiadu agwedd gynhwysol ac eang tuag at gydraddoldeb ac amrywiaeth – un sy'n cynnwys yr holl nodweddion gwarchoddedig sy'n rhan o Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Y rhain yw oed, anabledd, aibennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil (gan gynnwys gwreiddiau ethnig neu genedlaethol, lliw neu genedligrwydd), crefydd neu gred (neu ddiffyg cred), rhyw a chyfeiriadedd rhywiol, a'r laith Gymraeg. Mae ein dull ninnau'n cydnabod bod pobl yn aml yn dioddef gwahaniaethu oherwydd cyfuniad o ffactorau.

Rydym yn cydnabod hefyd bod angen i ni barhau i weithio'n galed i ymdrin ag unrhyw anghydraddoldebau cyfredol. Ond rydym hefyd eisiau sicrhau ein bod yn gwerthfawrogi'r rôl y gall pobl o bob rhan o'n cymdeithas ei chwarae i greu Cymru sy'n ffynnu. Gwyddom y bydd y celfyddydau yng Nghymru'n gryfach, yn fwy cyffrous ac yn fwy perthnasol i fwy o bobl os byddwn yn croesawu amrywiaeth.

Rydym yn frwdfrydig ynglŷn ag edrych ar yr hyn a wnawn a'r ffordd yr ydym yn gweithio drwy lygaid newydd. Bydd hynny'n adfywio ein dulliau ac yn helpu i gynyddu mynediad i'r celfyddydau.

Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020/21

1. Llywodraethu

Yr arfer cyfredol a meysydd i'w datblygu

Mae Ffotogallery yn bwriadu sicrhau bod ei Fwrdd Rheolwyr yn cynrychioli'r gymuned a'r defnyddwyr y mae'n eu gwasanaethu. Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am sicrhau bod y Cynllun Cydraddoldeb Strategol wedi ei weithredu, ei fonitro a'i adolygu'n gywir.

Wrth ddatblygu'r bwrdd dros y degawd diwethaf, mae Ffotogallery wedi sicrhau cynrychiolaeth dda o fenywod, y gymuned LGBT, mamolaeth ac oedran eang yn ei aelodau. Mae dwyieithrwydd Cymraeg-Saesneg wedi ei gynrychioli'n dda hefyd. Ond, rydym wedi pennu amrywiaeth ddiwylliannol, anabledd ac amrywiaeth grefyddol fel meysydd sydd angen eu cryfhau. Rydym wedi cwblhau cam un o broses recriwtio dau gam y Bwrdd, gan gynnwys penodi aelodau newydd sy'n adlewyrchu ein hymrwymiad i Gydraddoldeb.

Cafodd tri aelod newydd o'r Bwrdd eu penodi ym mis Ionawr 2020. Mae dwy yn fenywod a dau yn siarad Cymraeg. Mae cynlluniau ar y gweill ar gyfer ail garfan o aelodau newydd i'r Bwrdd yn 2020/21.

Yn codi o Adolygiad Amrywiaeth Ffotogallery a wnaed yn Hydref 2019, mabwysiadodd y Bwrdd Gynllun Gweithredu ar Amrywiaeth ym mis Ionawr 2020 sy'n cael ei weithredu yn 2020/21.

Cam gweithredu	Mesur	Y tîm arweiniol
Penodi aelodau newydd i'r Bwrdd sy'n adlewyrchu'r blaenoriaethau mewn	– Aelodaeth ar y Bwrdd sy'n cynrychioli'r gymuned a'r defnyddwyr y mae'n eu gwasanaethu, ac yn	Y Bwrdd, dan arweiniad y Cadeirydd a mewnbwn gan y Cyfarwyddwr, Rheolwr Busnes a Chynghorwyr CCC.

<p>perthynas ag amrywiaeth mewn diwylliannau, rhyw, anabledd a chrefydd</p>	<p>arbennig gynyddu'r gynrychiolaeth o fenywod, pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (BAME) a phobl anabl</p> <ul style="list-style-type: none"> - Mae'r Bwrdd yn cymryd camau priodol pan fydd aelodau'n gadael y Bwrdd i lynu at y Cynllun Cydraddoldeb wrth gael aelodau newydd yn eu lle - Mae'r Bwrdd a'r Cyfarwyddwr yn mynychu Gweithdy Hyfforddiant mewn Amrywiaeth gan CCC - Trafod cyfleoedd gyda Chelfyddydau a Busnes Cymru i recriwtio aelodau newydd i'r Bwrdd sydd yn y grwpiau blaenoriaeth trwy eu cronfa 'Board Bank' 	<p>Aeth Cadeirydd a Chyfarwyddwr Ffotogallery i Weithdy Hyfforddiant mewn Amrywiaeth CCC yng Nghasnewydd, ac rydym wedi bod yn gweithredu rhai o'r arferion da yn 2019, mewn perthynas â Diffusion a rhaglenni gwaith eraill.</p> <p>Rydym hefyd wedi cyfrannu at y Tasglu Amrywiaeth Beth Nesaf, ac wedi ymchwilio modelau o arfer da mewn rhannau eraill o'r DU, er enghraifft Siarter Ansawdd Bryste a'i becyn cymorth yn 2019</p> <p>Mae Celfyddydau a Busnes Cymru yn penodi Cynghorwr Busnes i weithio gyda ni ar brosesau newid sefydliadol, ac rydym wrthi'n trafod gyda nhw ynghylch cael aelodau arfaethedig newydd o'u cronfa 'Board Bank'.</p>
<p>Defnyddio gwaith partneriaeth gyda grwpiau cydraddoldeb i dargedu aelodau arfaethedig newydd i'r Bwrdd, yn arbennig o sectorau diwylliannol amrywiol ac o blith pobl anabl</p>	<ul style="list-style-type: none"> - Datblygu partneriaethau gyda sefydliadau o ddiwylliannau amrywiol megis Iris Autograph a Disability Arts Cymru i ganfod aelodau arfaethedig ar gyfer y Bwrdd. 	<p>Cyfarwyddwr</p>

2. Staff a gwirfoddolwyr

Mae Ffotogallery wedi ymrwymo i bolisi ac arferion cyfle cyfartal ac i sicrhau bod yr holl gyflogeion a gwirfoddolwyr, yn cynnwys staff llawrydd, yn cael eu trin yn gyfartal ac fel unigolion beth bynnag fo'u hoedran, anabledd, gwreiddiau ethnig neu genedlaethol, rhyw, statws priodasol neu statws rhiant, credoau gwleidyddol, hil, crefydd neu gyfeiriadedd rhywiol. Mae Ffotogallery wedi'i ymrwymo i ddefnyddio trefnau penodi a dethol agored a, lle bynnag y bo modd, hysbysebwr pob lle gwag a dilynir prosesau llunio rhestr fer a chyfweld sy'n deg a chyfartal. Mae hyn yn berthnasol i interniaethau a chyfleoedd i wirfoddoli hefyd.

Mae gweithwyr cyflogedig a gwirfoddolwyr sy'n gweithio gyda'r sefydliad yn cael eu hysbysu am y polisi cyfle cyfartal ac yn derbyn hyfforddiant am faterion cyfle cyfartal fel y bo'n briodol. Mae Ffotogallery hefyd yn sicrhau bod angenion newidiol a datblygiadol y staff a'r gwirfoddolwyr yn cael eu cydnabod a bod yr amodau gwaith a/neu'r hyfforddiant a ddarperir yn cael eu haddasu fel y bo'n briodol.

Wrth iddo recriwtio staff a gwirfoddolwyr dros y degawd diwethaf, mae Ffotogallery wedi sicrhau cynrychiolaeth dda ymysg ei aelodau o ferched, y gymuned LGBT, siaradwyr Cymraeg, mamolaeth ac ystod oedran eang. Mae ein perthynas barhaus gyda Disability Arts Cymru wedi helpu gyda phenodi pobl anabl fel gwirfoddolwyr, ac maen nhw hefyd wedi derbyn mentora a chefnogaeth sydd wedi'i deilwra i'w hanghenion unigol.

Rydym wedi pennu dwyieithrwydd Cymraeg-Saesneg fel maes sydd angen ei gryfhau ymysg y staff craidd a'r gweithwyr llawrydd. Roeddem wedi cyflogi siaradwr Cymraeg rhugl yn Gynhyrchydd Digwyddiadau ar gyfer Diffusion 2019, a nifer o dechnegwyr, cynorthwyyr arddangosfa a phersonél cyfryngau a chyfathrebu sy'n siarad Cymraeg yn y cyfnod yn arwain at yr ŵyl ac am gyfnod yr ŵyl. Rydym wedi pennu amrywiaeth ddiwylliannol, anabledd ac amrywiaeth grefyddol fel meysydd sydd hefyd angen eu cryfhau ar draws ein gweithlu staff a gwirfoddolwyr. Roedd dau aelod Asiaidd o staff wedi eu cyflogi ar sail llawrydd ar gyfer y flwyddyn 2019/20 gyfan i weithio ar Diffusion/ European Prospects a The Place I Call Home yn y drefn honno. Cynyddodd hynny'r gynrychiolaeth o bobl broffesiynol BAME ym myd y celfyddydau o fewn ein tîm bychan.

Bydd llwyddo i sicrhau gwobr fawr gan Gronfa Sgiliau a Chyfleoedd NatWest yn galluogi i Ffotogallery gynnig lle i 40 o bobl ifanc (16-30 oed) yn ein Hacademi Sgiliau Creadigol Newydd, sef llwybr sy'n dirwyn o waith lefel mynediad yn y diwydiannau creadigol i sefyllfa o fod yn barod i'r farchnad fel unigolyn proffesiynol hunangyflogedig neu fusnes bach. Cafodd pedair carfan o 10 unigolyn eu penodi rhwng 2018 a 2020, gan dargedu cymunedau amrywiol, economaidd ddifreintiedig yn Ne Cymru, ac ymdrin â rhwystrau ymddangosiadol i gyflogaeth yn y diwydiannau creadigol. Hyd yn hyn, mae 42 o interniaid cyflogedig wedi gwneud profiad gwaith go iawn gyda Ffotogallery, gan gynnwys saith sy'n siarad Cymraeg a deuddeg a gafodd eu penodi o ardaloedd y tu allan i Gaerdydd yn cynnwys y Cymoedd, Abertawe, Y Fenni a Chasnewydd. Gwnaeth un o'n hinterniaid o blith pobl BAME adolygiad amrywiaeth yn ystod hydref 2019 ac mae'r Bwrdd wedi mabwysiadu ei hargymhellion hithau ac yn eu gweithredu'n raddol drwy'r Cynllun Gweithredu Amrywiaeth.

Ym mis Mawrth 2020, clywsom fod cais Ffotogallery i ddod yn sefydliad cynnal i Fwrsariaethau Creadigol Weston Herwood 2020-22 wedi llwyddo. Mae ffocws hyn ar ein cefnogi ni i:

- Greu Cymrodoriaeth blwyddyn i weithiwr proffesiynol sydd yn gynnar yn ei g/yrfa ac sydd o gefndir economaidd-gymdeithasol isel
- Cymryd rhan mewn rhaglen bwrpasol o newid sefydliadol i gefnogi symudiad ystyrlon tuag at ddiwylliannau sefydliadol mwy cynhwysol, datblygiad cynulleidfaoedd a rhaglennu artistig.
- Ymgysylltu â rhwydwaith pwerus ledled y DU, ac ar draws y ffurfiau celfyddydol o Gynhalwyr, Cymrodorion a chyn-fyfywrwyr, sydd wedi eu hymrwymo i fwy o amrywiaeth a chynhwysiad economaidd-gymdeithasol yn y celfyddydau.

O ganlyniad i argyfwng Covid-19, mae cychwyniad y rhaglen hon wedi ei ohirio hyd fis Medi 2020, yn amodol ar ddatblygiadau sy'n ei gwneud hi'n bosibl i symud ymlaen. Y gobaith yw y bydd y Cymrodor yn ei le erbyn Ionawr/Chwefror 2021.

Cam gweithredu	Mesur	Y tîm arweiniol
<p>Ystyried sut y gallai Ffotogallery ddenu ceisiadau ar gyfer staff a chyfleoedd gwirfoddoli gan unigolion o gefndiroedd mwy amrywiol, gan gynnwys y meysydd sydd heb eu cynrychioli'n ddigonol ar hyn o bryd.</p>	<ul style="list-style-type: none"> - Gwneud gwaith ymchwil i ganfod ac ymdrin â'r rhwystrau sy'n bodoli'n barod - Gweithio gyda grwpiau cydraddoldeb arbenigol i hybu gwell dealltwriaeth o rolau a chyfleoedd a gynigir gan Ffotogallery i grwpiau sydd heb eu cynrychioli'n ddigonol - Archwilio lleoliadau profiad gwaith a hyfforddiant, a phrentisiaethau wedi eu targedu at grwpiau sydd heb eu cynrychioli'n ddigonol yn y data am gyflogaeth nodweddion gwarchoddedig 	<p>Cyfarwyddwr/Rheolwr Gweithrediadau</p>

<p>Hyfforddiant ychwanegol am gydraddoldeb i fod ar gael i staff a gwirfoddolwyr, fel y bo'r gofyn</p>	<ul style="list-style-type: none"> - Ystyried sesiynau hyfforddi ychwanegol a'u cynnwys mewn Cynlluniau Datblygu Staff - Hyfforddiant ychwanegol i gael ei gynnwys yn sesiynau ymgyfarwyddo'r gwirfoddolwyr 	<p>Cyfarwyddwr/Rheolwr Gweithrediadau</p>
<p>Adolygu'r cynnydd yn erbyn targedau a monitro camau gweithredu a mesurau a amlinellwyd yn y Cynllun Cydraddoldeb</p>	<ul style="list-style-type: none"> - Adolygiad bob chwe mis mewn cyfarfod o is-grŵp i'r Bwrdd - Diweddarau ac addasu'r cynllun - Adroddiad yn y cyfarfod Bwrdd nesaf 	<p>Bwrdd/Cyfarwyddwr</p>
<p>Sicrhau dyfodol yr Academi Sgiliau Creadigol newydd a phenodi interniaid o feysydd sydd â blaenoriaeth</p>	<ul style="list-style-type: none"> - Lanswyd y rhaglen ym mis Gorffennaf 2018 - Pedwar mewnlif o ddeg intern yn 2018/19 a 2019/20 - Trafodaeth gan y Bwrdd yn Haf 2020 am gyfleoedd yn y dyfodol i gael interniaeth gyda thâl 	<p>Cyfarwyddwr/Rheolwr Gweithrediadau</p>
<p>Cynnal Cymrodoriaeth Weston Jerwood am flwyddyn i weithiwr proffesiynol sydd ar gam cynnar yn eu gyrfa ac sydd o gefndir economaidd-gymdeithasol isel.</p>	<ul style="list-style-type: none"> - Creu Cymrodoriaeth blwyddyn i weithiwr proffesiynol yn gynnar yn ei gyrfa sydd o gefndir economaidd-gymdeithasol isel - Cymryd rhan mewn rhaglen ymroddedig o newid sefydliadol i gefnogi symudiad ystyrion tuag at ddiwylliannau sefydliadol mwy cynhwysol, 	<p>Cyfarwyddwr/Rheolwr Gweithrediadau</p>

	<p>datblygiad cynulleidfaoedd a rhaglennu artistig.</p> <ul style="list-style-type: none"> - Ymgysylltu â rhwydwaith pwerus ledled y DU, ar draws y gwahanol ffurfiau o gelfyddyd, o Gynhalwyr, Cymrodorion a chyn-fyfyrrwyr, sydd wedi ymrwymo i fwy o amrywiaeth economaidd-gymdeithasol a chynhwysiad yn y celfyddydau. 	
--	-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	--

3. Mynediad, cynhwysiad cymdeithasol a chyfranogaeth

Gan ein bod yn Fanny Street rydym yn agosach at gynulleidfaoedd ac wrth galon y gymuned artistig lleol. Rydym wedi creu man newydd, o safon uchel, ar gyfer celfyddydau ym mhrifddinas Cymru, gan ychwanegu'n sylweddol at ei chynnig diwylliannol er budd trigolion ac ymwelwyr fel ei gilydd. Mae Ffotogallery wedi dychwelyd i'w 'gartref' hanesyddol yng nghanol Caerdydd. Nawr mae angen i ni adeiladu cysylltiadau newydd yn y gymuned leol, gan gynnwys ysgolion, colegau a phrifysgolion, yr Amgueddfa Genedlaethol, y gwasanaeth llyfrgell a llu o sefydliadau celfyddyd a diwylliannol yn y ddinas. Gall y brif neuadd, y llyfrgell/archif a mynediad y gymuned i gyfleusterau a gweithgareddau gefnogi rhaglen ddynamig sy'n darparu cyfle i unigolion a grwpiau amrywiol ddatblygu eu sgiliau creadigol a dyfnhau eu hymgysylltiad gyda'r celfyddydau.

Yn ogystal â'n gwaith presennol i hwyluso mynediad a chynhwysiad i bobl anabl, cymunedau o ddiwylliannau amrywiol ac unigolion LGBT+, dros y pum mlynedd diwethaf rydym wedi bod yn targedu'r ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf gynt yng Nghaerdydd drwy brosiectau megis Hidden Presence, Cardiff Pride of Place, Route to Roots, One Match, Cymru dros Heddwch a Pride in Diversity sy'n ymdrin yn uniongyrchol â phroblemau 'todi o ran dyhead a thodi o ran cyfle' yn nhermau mynediad pobl leol i weithgareddau diwylliannol.

O flwyddyn i flwyddyn, mae rhaglen flynyddol Ffotogallery wedi gweld artistiaid o'r safon uchaf yn ymgysylltu â rhai o'r grwpiau sydd wedi eu difreinio fwyaf yng Nghymru, o bobl ddigartref i bobl ifanc sy'n dioddef cam-drin rhywiol, grwpiau LGBT+ a mewnfudwyr, oedolion anabl a phobl hŷn. Rydym wedi gweithio gydag ystod eang o ysgolion a cholegau yng Nghaerdydd a'r Cymoedd, gan gynnwys ysgolion cyfrwng Cymraeg. Esiamplau diweddar o'r gwaith yw ymweliadau grŵp ag arddangosfeydd a'n sesiynau Prosiect y Cymoedd, a phrosiect Children of Vision Alina Kisina yn 2019.

Mae'r tair gŵyl Diffusion ddiwethaf wedi cynnwys gwaith partneriaeth agos gydag Iris a chyflwyno gwaith gyda'r ddelwedd lonydd a'r ddelwedd symudol a gynhyrchwyd gan artistiaid LGBT+. Ffotogallery yw'r cynhyrchydd creadigol ar gyfer arddangosfa Unseen Suzie Larke, sef comisiwn ac arddangosfa deithiol Brydeinig fawr a ariannwyd drwy'r rhaglen Unlimited i artistiaid anabl. Mae'r prosiect dwy flynedd *Dreamtigers* rhwng India a Chymru, arddangosfeydd unigol gan Vanley Burke, Amak Mahmoodian, Ayesha Khan a Kurt Tong, ynghyd â'r ffocws mwyaf diweddar ar artistiaid a ffotograffwyr Arabaidd drwy The Place I Call Home, a phenodiad nifer o interniaid o blith pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (BAME), yn adlewyrchu ein hymrwymiad i hyrwyddo amrywiaeth ddiwylliannol. Gwobrwywyd yr ymrwymiad hwn gan gynnydd sylweddol mewn cyfranogwyr a chynulleidfaoedd BAME yng Nghaerdydd ac ymhellach i fwrdd.

Yn ystod Diffusion 2019, buom yn gweithio'n agos gyda sefydliadau sy'n cynrychioli ffoaduriaid a cheiswyr lloches, ac roedd llawer o aelodau'r Côr Binary Graffiti a berfformiodd yn Diffusion 2019 yn dod o'r gymuned hon, a llawer o bobl anabl o gorau cymunedol eraill. Roedd y prosiect Altered Ego yn Insole Court yn cynnwys artistiaid anabl ac artistiaid heb anabledd ac yn ymdrin â materion yn ymwneud â chreadigedd ac anafiadau i'r ymennydd. Roedd rhaglen Diffusion 2019 yn cynnwys tri pherfformiad o Liminality, darn o ddawns/ffilm i ymgolli ynddo rhwng India a Chymru a gomisiynwyd gan Gelfyddydau Rhyngwladol Cymru. Am fod Ffotogallery wedi ei gomisiynu i ddarparu prosiect mawr o'r enw The Place I Call Home yn rhan o fenter dair blynedd rhwng y DU a'r Gwlf, byddwn yn datblygu cysylltiadau agosach gyda gwladolion y Gwlf sy'n byw, yn gweithio ac yn astudio yn y DU (gan gynnwys Cymru) yn ogystal â phobl o'r gwasgariad Arabaidd ehangach.

Rydym wedi cefnogi a darparu cyfleusterau ar gyfer cydweithfa ffotograffiaeth menywod Phrame, yn cynnwys arddangosfeydd yn ystod Diffusion ac yn y Senedd, ac wedi cynnal adolygiadau portffolio a digwyddiadau eraill i gynyddu cynrychiolaeth menywod yn sector ffotograffiaeth Cymru.

Rydym hefyd wedi partneru gyda Chynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer yr arddangosfa Nifer o Leisiau, Un Genedl, sy'n cynnwys gwaith a gomisiynwyd gan chwe artist wedi eu seilio yng Nghymru ac sy'n archwilio themâu megis Senedd leuencid, Newid Hinsawdd a Ffermio, democratiaeth gymdeithasol a hunaniaeth leol, i gofnodi ei bod hi'n 20 mlynedd ers y Datganoli. Agorodd yr arddangosfa yn y Senedd ym mis Medi 2019, cyn teithio i Aberystwyth a Merthyr yn 2020. Yn 2020/21 rydym wedi cychwyn ar Nifer o Leisiau, Un Genedl Cam Dau, sef fframwaith thematig ar gyfer gwaith Ffotogallery am y 3-5 mlynedd nesaf.

Cam gweithredu	Mesur	Y tîm arweiniol
Datblygu a darparu rhaglen arddangos, cyhoeddi, dysgu ac ymgysylltu wedi'i thargedu, i Ffotogallery a Diffusion 2021, yn canolbwyntio ar bobl anabl,	<ul style="list-style-type: none"> - Cyfleoedd dysgu ffurfiol ac anffurfiol wedi eu bwriadu ar gyfer cyfranogwyr o'r 9 grŵp sydd â nodweddion gwarchoddedig - Arddangosfeydd a gweithgareddau cyhoeddi ar-lein 	Cyfarwyddwr/Tîm Rhaglennu

pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (BAME) a chynulleidfaoedd ac artistiaid LGBT+	ac mewn print sydd wedi eu hanelu at artistiaid a chynulleidfaoedd o'r 9 grŵp sydd â nodweddion gwarchoddedig	
Cryfhau gwaith partneriaeth gydag Iris i sicrhau bod y dimensiwn LGBT+ o Diffusion o safon mor uchel ag sy'n bosibl ac mor weladwy ag sy'n bosibl	– Cydweithredu gydag Iris wrth gynllunio Diffusion 2021, gan gynnwys comisiynu artistiaid, arddangosfeydd a sgrinio	Cyfarwyddwr/Arddangosfa
Gweithredu'r arferion gorau o'r prosiect Tu Fewn yng ngwaith Ffotogallery yn y dyfodol gydag artistiaid a chynulleidfaoedd anabl	– Diweddarau'r cynlluniau ar gyfer gweithio gydag artistiaid a chynulleidfaoedd anabl, gan gynnwys PhotoRenga, Unseen a Diffusion 2021	Cyfarwyddwr/Addysg/Arddangosfa
Bod yn bartner creadigol i Unseen Suzie Larke, sy'n gomisiwn celf anabledd ac arddangosfa deithiol i Unlimited, a'r prosiect PhotoRenga.	<ul style="list-style-type: none"> - Cefnogi cynhyrchiad ac arddangosfa'r gwaith newydd yn ystod 2020/21 - Hwyluso gweithdai a gweithgareddau ar-lein 	Cyfarwyddwr/Cydlynnydd Cynhyrchu
Cefnogi cydweithfa ffotograffiaeth menywod Phrame	<ul style="list-style-type: none"> - Darparu cyfleusterau arddangosfa, adnoddau a mewnbwn i'w digwyddiadau a gweithgareddau 	Cydlynnydd Cynhyrchu
Sicrhau bod cynlluniau cyfalaf yn sicrhau'r mynediad gorau posib i bobl gydag anghenion	– Cynnwys cyngor arbenigol am fynediad i'r anabl yn yr astudiaeth ddichonoldeb	Cyfarwyddwr

corfforol, synhwyaidd, gwybyddol a dysgu		
4. Datblygu creadigedd plant a phobl ifanc		
<p>Mae Ffotogallery yn rhannu uchelgais Llywodraeth Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru i weld mwy o blant a phobl ifanc ledled Cymru'n cymryd rhan weithredol mewn gweithgareddau creadigol o safon uchel. Beth bynnag fo'r amgylchiadau a wynebant, rydym eisiau i bob person ifanc gael y cyfle i ddatblygu eu doniau (gan gynnwys lefel uwch o gyrhaeddiad).</p> <p>Mae gwaith Dysgu ac Ymgysylltu Ffotogallery wedi gwneud cyfraniad sylweddol dros y blynyddoedd i ddatblygu creadigedd plant a phobl ifanc. Mae Ffotogallery wedi chwarae rhan strategol genedlaethol gynyddol yn nhermau hyrwyddo addysg weledol a'r cyfryngau. Rydym yn gweithio ledled Cymru gyda CBAC, ESIS, Gyfa Cymru ac ystod eang o ysgolion, colegau ac asiantaethau dysgu arbenigol. Yn ddiweddar aethom ati i ddarparu gweithdai animeiddiad digidol cyfrwng Cymraeg i bobl ifanc sydd wedi ymddieithrio rhag addysg yn Abertawe, ar gyfer Interfilm/S4C. Rydym yn ddarparu Arts Awards cymeradwy.</p> <p>Un flaenoriaeth allweddol wrth symud ymlaen fydd gweithio gyda Llywodraeth Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru ar weithredu'r Strategaeth Celfyddydau ac Addysg.</p> <p>Mae Ffotogallery yn cymryd rhan yn barod mewn cynnig cyfleoedd i bobl ifanc gael interniaethau a gwirfoddoli, gan bartneru gyda sefydliadau addysg uwch yng Nghymru megis Prifysgol Metropolitan Caerdydd a Phrifysgol De Cymru. Byddwn yn ceisio cynnal y rhaglenni hyn yn 2020/21 er mwyn darparu cyfleoedd newydd i bobl ifanc gael profiad go iawn o weithio yn y celfyddydau mewn rolau creadigol, technegol a gweinyddol.</p> <p>Yn ystod Diffusion 2019, gweithiodd yr artist Alina Kisina gyda phlant ysgol gynradd ac uwchradd ym Maesteg, Adamsdown a Merthyr ar y prosiect cyfranogol Children of Vision, gan archwilio nam ar y golwg a chreadigedd.</p>		
Cam gweithredu	Mesur	Y tîm arweiniol
Datblygu a darparu rhaglen arddangos, cyhoeddi, dysgu ac	- Mae'r holl raglenni a phrosiectau'n cynnwys	Arddangosfa/Addysg

ymgysylltu wedi'i thargedu, i Ffotogallery a Diffusion 2021, sy'n canolbwyntio ar gyfranogaeth greadigol plant a phobl ifanc	darpariaeth i blant a phobl ifanc ar draws y sbectrwm	
Datblygu ac ymestyn cyfleoedd i bobl ifanc yng Nghymru gael interniaethau a gwirfoddoli, ar gyfer Ffotogallery a Diffusion 2021	<ul style="list-style-type: none"> - Lleihafswm o 10 interniaeth a 100 o gyfleoedd gwirfoddoli - Datblygu trefniadau gwaith partneriaeth newydd gyda Phrifysgol De Cymru a Phrifysgol Caerdydd i hybu cyfleoedd i wirfoddoli ac interniaethau ac i sicrhau'r cymorth mwyaf 	Arddangosfa/Addysg

5. Cynyddu gwerth cydweithredu a chyfnewid diwylliannol rhyngwladol

Rydym yn rhannu nod y Cyngor Celfyddydau i alluogi i artistiaid a sefydliadau celfyddydol arweiniol yng Nghymru wireddu eu huchelgeisiau rhyngwladol drwy ehangu gorrweliion, annog potensial a chysylltu â phartneriaid a marchnadoedd sy'n ysbrydoli. Mewn byd sy'n globaleiddio fwy a mwy rydym eisiau i'r celfyddydau yng Nghymru allu gweithredu'n effeithiol yn y farchnadle fyd-eang. Ond, rydym hefyd yn gwybod bod profi a gwerthfawrogi traddodiadau diwylliannol o bob cwr o'r byd yn gallu cynyddu ein dealltwriaeth o amrywiaeth ddiwylliannol. Felly, rydym yn annog artistiaid a chynulleidfaoedd i ddatblygu cysylltiadau rhyngwladol.

Rydym wedi ymrwmo i ddatblygu gwaith arloesol Ffotogallery yn y dyfodol mewn cyd-destun Ewropeaidd, sydd hefyd yn creu'r posibilrwydd o gyfnewidiadau artistig newydd, prosiectau partneriaeth newydd a llifoedd ariannu newydd i gefnogi cydweithrediad rhyngwladol. Erbyn hyn, y porth European Prospects ar-lein yw adnodd gwe mwyaf arwyddocaol Ewrop ar ffotograffiaeth a chyfryngau'r lens, gydag arddangosfa o artistiaid yn dangos mwy na 450 corff o waith, bwletin sy'n diweddarau'n gyson o gyfleoedd newydd i artistiaid ar draws y rhanbarth, dogfennu

gweithgareddau prosiectau a rhwydwaith cynyddol o gydweithredwyr rhyngwladol.

Wrth fynd ar ôl nod Ffotogallery o 'fewnforio talent ryngwladol i Gymru ac allforio talent Gymreig i'r byd' byddwn yn parhau i gyflwyno gwaith Prydeinig a rhyngwladol o safon uchel yng Nghymru (mewn partneriaeth â sefydliadau fel Artes Mundi, Gŵyl Ffotograffeg Delhi, Mostyn, Impressions, PARC, Mosaic Rooms, Cymdeithas Ffotograffwyr Lithwania, Fotografie Forum Frankfurt, Le Chateau d'Eau, Galerie Les Filles du Calvaire Paris a'r Canadian Cultural Centre ymysg sefydliadau eraill.) Yn yr un modd, byddwn yn ceisio creu partneriaethau rhyngwladol newydd sy'n cynnig cyfle i artistiaid Cymru gyflwyno eu gwaith dramor, neu dreulio amser yn gweithio'n rhyngwladol ar brosiect preswyl neu ymchwil.

Dyfarnwyd dwy flynedd o gyllid UE i Ffotogallery yn Hydref 2018 o dan y rhaglen Creative Europe i arwain *A Woman's Work*, sef prosiect gydweithredu gyda phartneriaid yn Iwerddon, Ffrainc, Lithwania, Yr Almaen a'r Ffindir. Mae'r prosiect yn archwilio, drwy gyfrwng ffotograffiaeth a'r cyfryngau digidol, rôl menywod mewn diwydiant a gwaith wedi ei seilio ar dechnoleg yn Ewrop ar ôl y rhyfel, gan herio'r barnau dominyddol am ryw a diwydiant yn Ewrop.

Cawsom lwyddiant hefyd yn sicrhau cyllid India-DU gan y British Council/WAI ar gyfer y prosiect Dreamtigers 2017/18 ac ar gyfer prosiect gwaddol gyda Chennai Photo Biennale yn 2020/21, a'r contract i guradu a darparu The Place I Call Home, sef arddangosfa ffotograffiaeth fawr sy'n adlewyrchu profiadau cyfoes y bobl Arabaidd ar wasgar sy'n byw yn y DU a phobl Brydeinig sy'n byw yn y Gwlff.

Cam gweithredu	Mesur	Y tîm arweiniol
Darparu A Woman's Work, sef prosiect cydweithredu trawswladol sydd â ffocws arbennig ar ferched ac ar natur ddiwylliannol amrywiol Ewrop a gwerth deialog rhyngddiwylliannol	<ul style="list-style-type: none"> - cryfhau'r perthnasoedd partneriaeth gyda'r Almaen, Lithwania, Iwerddon, y Ffindir a Sbaen - cynhyrchu'r adroddiad terfynol a'r cynllun gwaddol erbyn Rhagfyr 2020 	Cyfarwyddwr
Ymestyn ein hymgysylltiad gydag India a'r gymuned Indiaid yng Nghymru, a	<ul style="list-style-type: none"> - sefydlu prosiect artistig Dreamtigers gyda Nazar Foundation/Gŵyl Ffotograffeg Delhi yn 	Cyfarwyddwr

<p>chwarae rhan lawn mewn ail osod y berthynas ddiwylliannol rhwng India a'r DU</p>	<p>bartner i ni, sy'n ymgysylltu â'r gymuned Indiaid yng Nghymru, gyda ffocws arbennig ar y genhedlaeth iau</p> <ul style="list-style-type: none"> - adnoddau a chyhoeddiad gwaddol i gael eu cyhoeddi a'u dosbarthu yn 2019/20 - prosiect gwaddol gyda Chennai Photo Biennale yn cynnwys cyflwyniadau yng Nghymru (Diffusion 2021) ac India (Chennai 2022) 	
<p>Datblygu'r dimensiwn rhyngwladol yng ngwaith Ffotogallery</p>	<ul style="list-style-type: none"> - Broceru perthnasoedd newydd gydag Ewrop, y Dwyrain Canol ac Asia - Sicrhau dimensiwn rhyngwladol cryf i Diffusion 2021 - Teithio The Place I Call Home yn llwyddiannus i 6 lleoliad yn chwe gwlad Cyngor Cydweithredol y Gwlff a 4 lleoliad yn y DU 	<p>Cyfarwyddwr</p>

Mehfin 2020